

Adroddiad Ôl Ymgynghori

Heol Hir – Gwaredu Culhau â Blaenoriaeth

Rhif Project: CO19046

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar gynigion y cynllun uchod rhwng 22 Gorffennaf 2019 a 12 Awst 2019, er y cafodd unrhyw ohebiaeth a ddaeth i law yn fuan ar ôl y dyddiad cau ei chynnwys yn rhan o'r adroddiad hwn. Diben yr ymgynghoriad oedd casglu gwybodaeth gan y gymuned leol er mwyn gwella'r cynllun a mynd i'r afael â phryderon lleol pan fo modd.

O'r tua 150 o eiddo yr ymgynghorwyd â nhw, a'r 6 hysbysiad safle a roddwyd ar y safle ei hun, cafwyd 5 ymateb unigol, a cheir crynodeb isod o'r holl sylwadau mewn perthynas â'r system culhau â blaenoriaeth o amgylch cyffordd Heol Hir / Copperfield Drive:

- 5 – Gwrthwynebu'r cynnig

Crynohir y gofidiau a'r sylwadau isod mewn ysgrifen italig, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

Argymhelliad

O ystyried yr isod, cynigir **bwrw ymlaen** gyda'r cynllun, yn amodol ar y cyllid sydd ar gael. Bydd y cynllun yn cael gwared ar y system culhau â blaenoriaeth bresennol ar Heol Hir ac yn cyflwyno Bwrdd Arafu a Chroesfan Sebra ar Fwrdd yn ei lle. Bydd hyn yn helpu i leihau cyflymderau cerbydau ar hyd y llwybr hwn a fydd yn gwella diogelwch ar y ffyrdd cyffredinol yn yr ardal ar gyfer holl ddefnyddwyr y ffordd.

Gweler isod y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori sydd yn erbyn y cynnig:

Mater: Bydd cael gwared ar y System Culhau â Blaenoriaeth o amgylch Copperfield Drive yn cael effaith negyddol ar ddiogelwch y ffyrdd

“Rwyf i a fy ngŵr yn credu bod y cynnig yna’n rhoi ein bywydau mewn perygl wrth i ni geisio gadael Copperfield Drive drwy droi i’r dde tuag at Excalibur Drive.

Er bod drych yno, mae’r traffig o’r cyfeiriad arall yn dod rownd tro dall wrth fynd tua’r de. Ar hyn o bryd mae’r mwyafrif ohonom yn ddigon bodlon aros nes bod bwch yn y llif tua’r gogledd er mwyn i ni allu dilyn y tu ôl wrth droi i’r dde.”

“Rydym wedi byw yn Pickwick Close ers (*date redacted*) ac yn aml yn defnyddio’r gyffordd i droi i’r dde i fyny Heol Hir i ymweld â’r Feddygfa a’r Archfarchnad.

Fel mae pethau mae’n brofiad nerfus iawn oherwydd cyflymder y traffig sy’n gyrru i lawr.”

“Plis, plis, plis peidiwch â chael gwared ar y system culhau’r ffordd. Byddai bron yn amhosibl i ni adael y stryd gan fod ceir yn dod rownd y gornel ar gyflymderau uchel fel y mae hi, heb y system culhau’r ffordd byddech chi’n ein rhoi mewn perygl o ddamwain.

“Pe bai’r system culhau’r ffordd yn cael ei gwaredu byddai’n arwain at lif parhaus o draffig, heibio Copperfield Drive, ac yn ei gwneud yn anodd iawn i geir adael Copperfield Drive yn ddiogel.

Ar hyn o bryd mae ceir sy’n gadael Copperfield Drive yn dibynnu’n helaeth ar y system culhau’r ffordd i Heol Hir. Mae’r system culhau’r ffordd wedi bod yn effeithiol iawn dros y 30 mlynedd diwethaf ac NID YDYM am i chi gael gwared arni.”

Fodd bynnag, nid yw’n glir sut y byddai’r mesurau hyn yn “gwella cyfleusterau croesi cerddwyr” fel yr awgrymir yn y "Disgrifiad o Gynnig y Cynllun". Yn arbennig ger cyffordd Copperfield Drive, gallai’r cyfleusterau croesi cerddwyr gael eu gwaethygu’n sylweddol.”

“Gallai bwrdd arafu, yn ogystal ag effaith arafu’r gornel siarp yn Heol Hir, dueddu i arafu’r traffig i ryw raddau ond dim byd i gymharu â’r rheol culhau a blaenoriaeth bresennol sy’n aml yn gwneud i’r traffig stopio a bob amser yn gwneud i’r traffig fod yn barod i stopio.

Hefyd, ni fyddai’r bwrdd arafu yn helpu traffig sy’n dymuno gadael Copperfield Drive i’r chwith neu’r dde i Heol Hir. Mae’r weithred hon yn ddigon anodd nawr ac yn dibynnu’n helaeth ar y rheol blaenoriaeth wrth y system gulhau i roi cyfle digonol i adael yn ddiogel. Oherwydd y tro gerllaw (a ffensys gerddi cefn), ni ellir gweld yn dda o gwbl i’r dde wrth geisio ymadael.”

Cytunir bod y system culhau’r ffordd bresennol yn helpu cerbydau sy’n troi i’r dde o Copperfield Drive ar Heol Hir gan eu bod yn gallu ymuno y tu ôl i unrhyw draffig sy’n mynd tua’r gogledd trwy’r system culhau’r ffordd, ac maen nhw’n cael blaenoriaeth dros gerbydau sy’n teithio tua’r de ar Heol Hir. Bydd cael gwared ar y system culhau’r ffordd hon yn golygu y bydd cyffordd Heol Hir / Copperfield Drive yn gweithredu fel cyffordd blaenoriaeth gyffredin, yn gyson â chyffyrdd eraill o amgylch y Ddinas, lle mae gyrwyr yn gorfod tynnu allan pan fo’n ddiogel i wneud hynny.

Ar hyn o bryd dim ond gorfod arafu neu stopio mae cerbydau sy’n teithio tua’r de ar Heol Hir pan fo cerbydau sy’n teithio i’r cyfeiriad arall yn dod i’w cwrdd. Felly, pan fo cerbydau yn teithio tua’r de trwy’r system gulhau hon os nad oes cerbydau yn teithio i’r cyfeiriad arall, gall

cerbydau barhau ar hyd y llwybr hwn heb leihau eu cyflymder. Drwy gyflwyno byrddau arafu bydd yn sicrhau bod cerbydau sy'n teithio i'r ddau gyfeiriad yn gorfod lleihau eu cyflymder p'un a oes cerbydau yn teithio i'r cyfeiriad arall neu beidio.

Yn dilyn yr adborth a dderbyniwyd fel rhan o'r ymgynghoriad hwn rydyn ni nawr yn ystyried ymestyn ochr ddwyreiniol y bwrdd arafu ar Heol Hir wrth y gyffordd â Copperfield Drive. Bydd hyn yn cadw cerbydau sy'n teithio tua'r de i ffwrdd o ymyl y cwrbyn a fydd yn galluogi cerbydau sy'n gadael cyffordd Copperfield Drive i weld y cerbydau hyn yn well. Bydd hyn hefyd yn lleihau lled y briffordd y mae'n rhaid i gerddwyr ei chroesi yma, sy'n gwella diogelwch i gerddwyr sy'n croesi wrth y lleoliad hwn.

Bydd hefyd digon o arwyddion rhybudd yn cael eu cyflwyno a marciau ffordd Araf / Slow ychwanegol i rybuddio gyrwyr y dylent leihau eu cyflymer wrth ddod at y lleoliad hwn.

Mater – Lefelau Sŵn o Fyrddau Arafu

“Bydd hefyd yn arwain at lefelau sŵn cynyddol y tu ôl i'n tŷ sydd eisoes yn annerbyniol.”

Nid ydym yn cynnal arolygon sŵn cyn neu ar ôl gosod nodweddion arafu traffig fel y rhain. Rydym yn dibynnu ar Ganllawiau'r Adran Drafnidiaeth megis Taflen Cynghori Traffig 6/96 a Nodyn Trafnidiaeth Lleol 1/07. Mae'r cyngor o'r dogfennau hyn fel a ganlyn:

"Conventional methods of measuring traffic noise do not readily expose annoyance factors associated with changes in the variability of noise. Consequently, it is difficult to predict accurately the perceived noise impact of traffic calming schemes (Abbot et al., 1995b)."

Felly nid ydym yn darllen lefelau sŵn wrth weithredu cynlluniau arafu traffig. Yn anffodus, byrddau arafu yw'r unig ddull effeithiol sydd ar gael ar hyn o bryd i leihau cyflymderau cerbydau'n llwyddiannus er mwyn gwella diogelwch ar y ffyrdd i ddefnyddwyr agored i niwed, cydnabyddir y gallent achosi sŵn wrth i gerbydau yrru drostynt. Rydym wedi dewis cyflwyno rampiau tarmac yn y lleoliad hwn yn hytrach na rampiau parcio oherwydd bod rampiau tarmac yn llai llym na rampiau parod ac yn creu llai o sŵn a dirgrynu.

Mater – Ymholiad Data Gwrthdrawiadau



“Gweler yr ystadegau oherwydd rwyf wedi cael gwybod bod damweiniau wedi digwydd cyn i'r system culhau'r ffordd gael ei chyflwyno a dim ers hynny.”

Mae gwiriad o'n system mapio golygfa o'r awyr yn mynd yn ôl i 2001 sy'n nodi bod y system culhau'r ffordd ar waith adeg hynny. Mae gwiriad o'n data gwrthdrawiadau rhwng 1999 a 2018 yn nodi na chofnodwyd unrhyw wrthdrawiadau anafiadau o amgylch cyffordd Heol Hir / Copperfield Drive yn ystod y cyfnod hwnnw. Felly, nid oeddem yn gallu asesu unrhyw wrthdrawiadau a allai fod wedi digwydd cyn i'r system gulhau gael ei chyflwyno.

Gweler isod y sylwadau a ddaeth i law yn ystod y cyfnod ymgynghori sydd yn cefnogi'r cynnig:

“Ymddengys y gallai gwaredu'r ddwy system gulhau arwain at rai manteision o ran y llif traffig.”

Yn dilyn ymgynghoriadau diweddar ar gynnig rheoli traffig, mae'r Cyngor yn paratoui i weithredu'r cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun, a fydd yn destun proses Gorchymyn Rheoli Traffig. Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn [www.caerdydd.gov.uk/ Projectautrafnidiaeth](http://www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth) ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'.



Following the recent consultation on a traffic management proposal, the Council is preparing to implement the scheme based on the revised plan shown. Further details about this consultation are available at cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link.

